# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **8 Mai 2019**. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Kelly Roberts | **Ward Etholiadol:** | Gorseinon |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | - |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiweddaf, rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol rheolaidd.

Rwyf wedi cefnogi preswylwyr i fynd i'r afael â nifer o faterion, gan gynnwys:

- Problemau gyda'r cynllun tai ac adnewyddu
- Parcio a Llinellau Melyn
- Tipio anghyfreithlon
- Atgyweirio palmentydd a phriffyrdd
- Diogelwch y briffordd
- Coed sydd wedi gordyfu
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Defnyddiais fy Nghyllideb Cynghorwyr Cymunedol i ariannu -

- Dau ddigwyddiad Diwrnod Hwyl i'r Gymuned
- Camerâu mewn ardaloedd allweddol i helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Meinciau picnic yn ardal chwarae Stryd y Capel
- Meinciau coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf

Rwyf hefyd wedi cefnogi'r achosion canlynol trwy gyfraniadau:

- Cynllun Ymatebwyr Cyntaf Gorseinon
- Tîm Gymnasteg Stryd y Gorllewin
- Diwrnod Hwyl Gorseinon
- Y Lleng Brydeinig Frenhinol
- Dance to Health Gorseinon

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb cynghorwyr yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld cyfrifoldebau cynghorwyr yma.
Gallwch weld apwyntiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma .

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Creais grŵp 'Hyrwyddwyr Sbwriel' i geisio mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon o amgylch y dref. Rydym yn grŵp bach, ond rydym wedi casglu dros 100 o fagiau sbwriel hyd yn hyn. Rydym yn weithredol rhwng mis Mawrth a mis Hydref. Os hoffech ymuno, dewch o hyd i ni ar Facebook: 'Gorseinon Litter Champions'.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n parhau i wirfoddoli ym Manc Bwyd Gorseinon ac roeddwn yn gyfrifol am drefnu'r siop Nadolig dros dro am ddim i rieni yr oedd angen anrhegion i'w plant arnynt.

Rwy'n falch i ddweud ein bod ni'n parhau i gynnal Bwyd gyda Ffrindiau (pryd o fwyd cymunedol am ddim) ac rydym eisoes yn cynllunio dyddiadau'r flwyddyn nesaf.

Cysylltais â'r heddlu lleol a swyddogion priffyrdd ynglŷn â nifer o broblemau parcio/goryrru ledled Gorseinon yn rheolaidd. Yn enwedig wrth gydweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i geisio datrys y problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngorseinon.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**
Basic Salary: £13,600

Gallwch weld ffurflenni hawlio costau teithio a threuliau cynghorwyr yma.
Gallwch weld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31/01/2020 |